

Cyfarfod Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd Crynodeb o'r Cyfarfod Dydd Llun 20 Gorffennaf 1pm-2pm. Microsoft Teams.

Yn bresennol:

Andy Warnock (AW)	Guto Brychan (GB)	Peter Francombe (PF)
Antwn Owen Hicks (AOH)	Helia Phoenix (HP)	(Gwestai LIC)
Y Cynghorydd Peter Bradbury (Y Cyng. B)	Heather Brown (HB)	Phil Sheeran (PS)
Daniel Minty (DM)	Joe Jones (JJ)	Ruth Cayford (RC)
Gavin Allen (GA)	Jonathan Day (JD)	Sarah Hemsley Cole (SHC)
David Ball (DB)(Gwestai LIC)	Liz Hunt (LH)	Tumi Williams (TW)
Gerwyn Evans (GE)	Lucy Squire (LS)	
	Michael Garvey (MG)	
	Nick Saunders (NS)	

Ymddiheuriadau:

Y Cynghorydd Huw
Thomas
Adrian Field
Bethan Elfyn
Jon Fox

1. Cyflwyniad y Cadeirydd - Y Cynghorydd Peter Bradbury

- Croeso i'r Aelodau a chydweithwyr Cymru Greadigol Llywodraeth Cymru, yn ogystal ag Aelodau Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd (BCC) **Gerwyn Evans, Dave Ball a Peter Francombe** sy'n ymuno â ni heddiw. Rydym yn awyddus i drafod rhai o'r heriau y mae'r sector cerddoriaeth fyw yn eu hwynebu wrth i ni ddod allan o'r cyfnod cloi a symud i'r cyfnod adfer. Bydd y cwestiynau allweddol heddiw yn ymwneud â sut y gallwn gefnogi adferiad y sector cerddoriaeth yng Nghaerdydd gyda'n gilydd.
- Rydym yn gwerthfawrogi faint y mae rhai ohonoch wedi ymgysylltu â'n swyddogion ers ein cyfarfod diwethaf, diolch i'r rhai a fu'n rhan o drafodaethau ynghylch cynlluniau adfer canol y ddinas, roeddwn hefyd yn falch o glywed pa mor dda y mae gwaith yr is-grŵp Addysg Cerddoriaeth wedi dechrau hefyd.
- Rydym i gyd yn wynebu heriau helaeth o ganlyniad i argyfwng Covid-19, gan ymdrin yn bennaf â goblygiadau hyn ar iechyd y cyhoedd a'r gyllideb. Diweddariad; bu'n rhaid i ni ailffocysu'r holl gynlluniau ar gyfer Gŵyl Dinas Gerdd Caerdydd (ein digwyddiad Cerddoriaeth Caerdydd mawr) o eleni i fis Hydref 2021, ar yr amod y bydd arian ar gael ac y bydd popeth yn iawn erbyn hynny. Rhywbeth i ni

i gyd edrych ymlaen ato gobeithio.	
2. Strategaeth Adfer Canol Dinas Caerdydd	
<ul style="list-style-type: none"> • Mae (HB) a (JD) yn cyflwyno cynlluniau adfer canol y ddinas. Amcan y strategaeth adfer yw cefnogi busnesau i ailagor a denu pobl i ganol y ddinas eto. Yr egwyddor sy'n sail i'r gwaith hwn yw defnyddio ein hasedau cyhoeddus i gefnogi busnesau yng nghanol y ddinas. • Fel rhan o gynlluniau canol y ddinas rydym yn awyddus i helpu busnesau i greu ardaloedd allanol, gan gynyddu'r defnydd o fannau awyr agored, gan fod mannau dan do yn dal i gyflwyno mwy o heriau o ran bod yn ddiogel rhag Covid. Lle y bo'n bosibl, byddem yn annog busnesau i ddefnyddio mwy o fyrddau a chadeiriau y tu allan i'w hadeiladau. • Rydym yn agored i syniadau ar gyfer perfformiadau cerddoriaeth, mannau marchnad â gorchudd, bwytai dros dro, mannau chwarae, orielau allanol, ardaloedd perfformio a theatr stryd yn unol â'r canllawiau, rydym yn awyddus i ddatblygu partneriaethau. • Hoffem annog cynigion, felly rydym yn galw am syniadau gan Fwrdd Cerddoriaeth Caerdydd a thrafodaeth agored ar syniadau a gweithgarwch y gallwn eu datblygu. 	<p>Camau Gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Aelodau Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd yn galw am syniadau a chynigion o ran perfformiadau cerddoriaeth. • Trafodaeth agored ar syniadau gan BCC sy'n cefnogi pobl ifanc dalentog.
3. Adferiad y Sector Cerddoriaeth Fyw	
<ul style="list-style-type: none"> • (PS) Mae pryderon yn parhau am y negeseuon ynghylch lleoliadau dan do. Wrth symud ymlaen, byddai'n dda i'r negeseuon hynny roi sicrwydd i'r cyhoedd y bydd lleoliadau yn ailagor pan fydd yn ddiogel gwneud felly. • (AW) Mae Undeb y Cerddorion yn cynnal Ymgyrch Ledled y DU ar draws y pedair gwlad i annog lleoedd i agor mannau byw ar gyfer perfformiadau cerddoriaeth mewn dinasoedd, i gefnogi talent a cherddorion. • (AW) Hoffai BCC wybod beth allai'r cyfleoedd fod, byddai angen i arian fod ar gael i dalu cerddorion sy'n perfformio fel rhan o'r cynlluniau hyn • (GB) Mae angen i ni werthfawrogi'r pryderon ynghylch y sector cerddoriaeth ar lawr gwlad a'r heriau. • (GB) Mae angen arweiniad cliriach ar leoliadau cerddoriaeth gan Lywodraeth Cymru ar sut i gynllunio ar gyfer digwyddiadau cerddoriaeth a gweithgarwch dan do. • (HP) Mae busnesau a chadwyn gyflenwi'r sector cerddoriaeth fyw yn wynebu heriau enfawr oherwydd bylchau mewn cymorth, mae meysydd nad yw'r arian na'r cymorth yn eu cyrraedd, sy'n bryder mawr. Mae angen 	<p>Camau Gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nodi cymorth ar gyfer gweithgarwch cerddoriaeth awyr agored yn ardal Cwr y Castell • Gofyn am arweiniad clir a gwybodaeth gynllunio gan Lywodraeth Cymru ynghylch gweithgarwch cerddoriaeth awyr agored a dan do • Cyhoeddi datganiad Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd yn galw am arweiniad clir

<p>egllurder ynghylch pryd y gallwn ddechrau cynnal digwyddiadau awyr agored i helpu cerddorion a chadwyni cyflenwi.</p>	
<p>4. Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru</p>	
<ul style="list-style-type: none"> • (Y Cyng. B) Roeddem yn falch o glywed Prif Weinidog Cymru yn cadarnhau yn ei gynhadledd i'r wasg ddydd Gwener fod £59 miliwn ar gael i gefnogi adferiad sector y Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth yng Nghymru. Byddem yn croesawu diweddariad gan ein Cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru ac Antwn Owen Hicks o Gyngor Celfyddydau Cymru sy'n arwain hyn. • (GW a DB) Unwaith y gwneir penderfyniadau ar faint y bydd CCC yn ei gyflawni a faint y bydd CG yn ei gyflawni, cyhoeddir y broses ymgeisio a'r cynlluniau a chaiff canllawiau eu rhannu. Mae gan Lywodraeth Cymru restr o bobl sydd wedi gwneud cais yn y gorffennol am arian brys, felly bydd yn cysylltu â'r rhestr honno eto. • Mae (SHC) yn gofyn i Swyddogion Llywodraeth Cymru am eglurder ar ddatganiad Prif Weinidog Cymru o ran gallu cynnal rhai digwyddiadau a sinema awyr agored o 13 Gorffennaf, ond dywedodd fod diffyg dealltwriaeth o'r hyn y mae hynny'n ei olygu o ran llywodraethu a'r Panel Cyswllt Brys ac ati. • (PS) Mae angen negeseuon cliriach sy'n rhoi gwybodaeth i hyrwyddwyr a gweithredwyr. Mae'r sector angen i'r llywodraeth a phartneriaid wneud gwaith ar y goblygiadau o aros ar gau. Mae'r cynllun ffyrlo wedi achub bywydau, ond nid oes gwybodaeth am barhad y cynllun ffyrlo ar gyfer busnesau sy'n cael cyfarwyddyd i aros ar gau. • (GE) Mae gan Cymru Greadigol grŵp cerddoriaeth sy'n cyfarfod yn rheolaidd. Mae CG wedi cyhoeddi dogfen ganllaw ar gyfer ailagor y sector Ffilm a Theledu. Ond nid yw wedi cael arweiniad penodol ar gyfer y sector cerddoriaeth eto. Mae'n awyddus i weithio gyda'r sector ar arweiniad o ran ailagor ac adfer a bydd yn rhoi amserlen ar waith i edrych ar hyn. • Mae'r (Cyng. B) yn gofyn pwy yw'r Gweinidog sy'n gyfrifol am ddatblygu'r arweiniad hwn ar gyfer y sector cerddoriaeth a digwyddiadau, gan nad yw hyn yn glir. Teimlwyd y byddai'r sector yn croesawu mwy o amlygrwydd gyda'r Dirprwy Weinidog yn rhoi eglurder ynghylch cyfeiriad teithio. Byddai'r sector yn croesawu mwy o wybodaeth am yr hyn sy'n bosibl ar hyn o bryd. • (RC) Mae aelodau Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd sydd hefyd yn eistedd ar grwpiau adfer cerddoriaeth 	<p>Camau Gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Galw am negeseuon cliriach mewn canllawiau • Y sector i weithio gyda LIC CG ar ganllawiau penodol ar gynllunio ar gyfer ailagor y sector cerddoriaeth fyw. • LIC CG i rannu canllawiau ymgeisio ar y gronfa Adferiad Diwylliannol • Ruth Cayford i eistedd ar weithgor Cerddoriaeth CG LIC, i sicrhau bod gwaith yn cyd-fynd.

<p>Llywodraeth Cymru yn awgrymu gwerth ffurfioli perthynas waith pob grŵp er mwyn sicrhau gweithio effeithiol.</p> <ul style="list-style-type: none"> (DB) Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno i weithio gyda'i gilydd i sicrhau cyfathrebu da. Cytunwyd y bydd Ruth Cayford, Swyddog Cyngor Caerdydd sy'n arwain Strategaeth Gerddoriaeth Caerdydd, yn eistedd ar grŵp Cerddoriaeth Cymru Greadigol, i sicrhau dilyniant a bod gweithgarwch a gweledigaethau'n cyd-fynd â'i gilydd. (GE) Mae Swyddogion Llywodraeth Cymru Cymru Greadigol yn bwriadu datblygu cynllun gweithredu ar gyfer cerddoriaeth fyw yng Nghymru. 	
<p>5. Polisi Cerddoriaeth a Datblygu Rheoleiddio</p>	
<ul style="list-style-type: none"> (AS) Hoffai Aelodau BCC gysylltu'r gwaith presennol sydd ar y gweill yn PDC a sefydliadau eraill i ystyried sut y gall yr ymchwil hon lywio'r broses o greu polisiâu mewn Llywodraeth Leol a Llywodraeth Genedlaethol - mae Lucy Squire yn trafod rhywfaint o waith yr Athro Paul Carr a allai gefnogi hyn. (RC) Bydd Aelodau BCC yn parhau i weithio i ddatblygu polisi a chanllawiau priodol i gerddorion ynghylch parcio ar Stryd Womanby, creu Polisi Bysgio Caerdydd, a thrwyddedu sy'n ystyriol o gerddoriaeth. (RC) Bydd swyddogion yn parhau i sefydlu gwaith is-grŵp, gan gynnwys Fforwm Diogelwch Byw gyda Heddlu De Cymru. Cododd (LH) y mudiad Mae Bywydau Du o Bwys a thynnodd sylw at y ffaith y dylai'r fforwm Diogelwch Cerddoriaeth Fyw ymchwilio i wahaniaethu sy'n ymwneud â genres cerddoriaeth penodol a'r berthynas rhwng yr holl drwyddedu, hyrwyddwyr, lleoliadau a diogelwch y cyhoedd. 	<p>Camau Gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cysylltu ymchwil PDC â'r gwaith o ddatblygu polisi cerddoriaeth Parhau â gwaith yr is-grŵp ar y Strategaeth Fysgio, Trwyddedau a Stryd Womanby Sefydlu Fforwm Diogelwch Cerddoriaeth Fyw BCC gyda Heddlu De Cymru a chydweithwyr
<p>6. Gwaith Is-grŵp Addysg Cerddoriaeth</p>	
<ul style="list-style-type: none"> (RC) Diolch i aelodau BCC sydd wedi dechrau gweithio ar y grŵp hwn, gan edrych ar ein hargymhellion Strategaeth Cerddoriaeth Sound Diplomacy, sy'n cynnwys mynediad i addysg gerddorol, mapio cyfleoedd cerddorol a datblygu artistiaid. (MG a GA) Diweddarau'r grŵp ar ymchwil i wasanaethau cerddoriaeth yng Nghaerdydd hyd yma. Mae Gavin yn darlithio ar newyddiaduraeth data mewn JOMEC, ac mae'n ystyried y syniad o adeiladu map rhyngweithiol o gyfleoedd addysg cerddoriaeth Caerdydd. Y nod yw datblygu llwyfan i bobl sydd am fanteisio ar yr holl gyfleoedd addysg cerddoriaeth yn y ddinas. Mae Gavin yn 	<p>Camau Gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> Parhau â gwaith is-grŵp Addysg Cerddoriaeth, gan ystyried mapio cyfleoedd addysg cerddoriaeth yng Nghaerdydd. Parhau â gwaith is-grŵp Addysg Cerddoriaeth, gan ystyried cyfleoedd

<p>rhedeg MA arbenigol ar Newyddiaduraeth Data ac mae'n gobeithio cynnwys y myfyrwyr hyn.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae (LS) yn dweud y byddai'n ddefnyddiol mapio cyfleoedd datblygu artistiaid fel rhan o'r gwaith hwn. Gweithio gyda Bethan Elfyn ac is-grŵp Addysg Cerddoriaeth BCC, y Prifysgolion a chydweithwyr AB. Dod â hyn at ei gilydd ar ffurf hawdd ei ddeall. Efallai edrych ar raglen 10 cam Complete Music Update y mae'r Great Escape yn ei rhedeg. 	<p>Datblygu Artistiaid.</p>
<p>7. Diweddariad ar Gyfathrebu</p>	
<ul style="list-style-type: none"> • Mae aelodau Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd wedi dweud yr hoffent gael datganiad cyhoeddus o waith Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd hyd yma a chynlluniau wrth symud ymlaen. Rydym yn cynnig ein bod yn gweithio gyda thîm Cyfryngau a Chyfathrebu Cyngor Caerdydd i helpu i baratoi datganiad cyhoeddus. Byddwn yn dosbarthu datganiad i'w gymeradwyo gan y grŵp cyn ei gyhoeddi. • Cytunwyd ei bod yn rhy fuan yn natblygiad BCC i gael presenoldeb penodol ar y cyfryngau cymdeithasol. Byddwn yn rheoli'r gwaith o gyfleu gwaith BCC drwy ddatganiadau cyhoeddus o ddatblygiadau sy'n haeddu sylw cyn cyfarfodydd BCC a chyhoeddi'r agendâu a'r cofnodion cymeradwy. 	<p>Cam gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Paratoi a chyhoeddi datganiad cyhoeddus
<p>8. Unrhyw fater arall</p>	
<p>Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf i'w cadarnhau – dosbarthwyd y dyddiadau gan Swyddogion</p>	